

Y newyddlen ar gyfer pobl sy'n ymwneud â dehongli yng Nghymru



Dehongli Cymru

Interpret Wales

Autumn Hydref
2006 rhifyn issue

The newsletter for people working in interpretation in Wales

6



Yn y rhifyn hwn In this issue

Dehongli yn y Dwyrain
A View From the East

Creu Sgyrsiau
Creating Conversations

Newid Byd
Changing Times

DEHONGLI CYMRU/INTERPRET WALES

Rhifyn 6 Hydref 2006

Cyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar ran Grŵp Llywio Dehongli Cymru.

Golygydd: Ruth Waycott

Dylunio: Olwen Fowler

Argraffwyd gan: Gwasg Gomer Cyf

Gwasanaethau Cyfieithu:

Comisiwn Coedwigaeth Cymru


Nod Dehongli Cymru yw ennyn brwdfrydedd y cyhoedd dros ein treftadaeth naturiol a diwylliannol drwy gyfrwng dehongli o'r safon uchaf, a chynorthwyo dehonglwyr drwy rwydweithio, hyfforddiant a rhannu arfer da.

Mae'r prosiect dan ofal Grŵp Llywio a gynrychiolir gan yr asiantaethau sydd a'u logos yn ymddangos isod.



Peidiwch ag anghofio'r bobl!

Croeso i rifyn arall o Ddehongli Cymru.



Cynnwys

Profiad dwylo a thraed – dehongli yn y Dwyrain 4
Teri Brewer

Newid byd yng Nghaeriw 8
Elaine Jones

Creu sgysiaiu ag ymwelwyr 12
Nia Williams

Gêm yn Ynyslas 14
Glenn Davidson

Dathlu llwyddiant ac arloesedd ym maes dehongli yng Nghymru – adroddiad ar y gynhadledd 18
Ruth Taylor Davies & Ruth Waycott

Newyddion a barn 20

Angen cysylltu â ni?

Ysgrifenyddiaeth Interpret Wales / Dehongli Cymru

Ruth Taylor Davies

lethaconsultancy@fsmail.net

ffôn: 01792 881762

Newyddlen Interpret Wales / Dehongli Cymru

Ruth Waycott

ruth@waycott.fsnet.co.uk

ffôn: 01600 860779

Lluniau Clawr blaen:

Castell Coch ac aderyn ysglyfaethus yng Nghastell Aberystwyth

Yn y rhifyn diwethaf canolbwyntiwyd ar dechnoleg, ond yn wyneb yr holl sylw sy'n cael ei roi i ddyfeisiau a theclynnau heddiw mae'n hawdd iawn anghofio am bobl! Felly y nod yn y rhifyn hwn o Ddehongli Cymru yw dod â'r cydbwysedd yn ôl: mae ein cyfranwyr yn profi â'u dwylo a'u traed ac yn creu sgysiaiu ag ymwelwyr.

Mae'n ddiddorol bod cymaint o'r dechnoleg ddeongliadol a grëwn yn dynwared pobl. Cymerwch er enghraifft yr *avatar* Dewi, wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur, sydd wedi bod mor boblogaidd yn Ynys-las. Rydym yn gwerthfawrogi cyffyrddiad dynol ac ymddygiad dynol. Ond a yw dulliau uwch-dechnoleg yn ateb y diben bob amser? Oni fyddai'n fwy cynaliadwy a chynhwysol i ddefnyddio pobl leol yn dywyswyr a dehonglwyr ar gyfer ein safleoedd treftadaeth a'n tirweddau hanesyddol? Mae pethau'n 'gwneud mwy o synnwyr i ni os ydym yn eu clywed yng nghyd-destun lle go iawn gan bobl go iawn', medd Elaine Jones yn ei herthygl ar y prosiect hanes yn siarad, *Newid Byd yng Nghaeriw*.

Ar ôl darllen erthygl Teri Brewer ar Ddehongli Corea, ymddengys fod rhai o'n hymdrechion dehongli ni braidd yn arwynebol, yn 'oer'

hyd yn oed, gan fod yr ymagwedd Goreaidd gymaint yn fwy cyfannol. Mae gan y Coreaidd grym arbenigedd technolegol, ond dewisant ddulliau dehongli technoleg-isel, yn enwedig wrth hyrwyddo technolegau cynaliadwy. Gyda'r ddatl ar newid yn yr hinsawdd yn codi ar agenda pawb, efallai y dylem edrych yn fanylach ar yr hyn y mae ein cydweithwyr ar draws y byd yn ei wneud?

Mae'n dda gweld yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan yn gwneud gwaith arloesol wrth ailddatblygu ei harddangosfeydd, drwy roi cyfle i ddefnyddwyr gyfrannu at y cynnwys a'r dehongli, yn hytrach na bod yr holl waith dehongli yn nwylo'r staff curadurol. Mae caniatáu i unigolion a chymunedau fynegi eu safbwyntiau drwy arddangosfeydd a straeon digidol sydd â'u gwreiddiau yn y gymuned wedi arwain at daith ddysgu hynod i bawb a fu ynghlwm wrth y fenter, gan ein hatgoffa y dylem ni i gyd 'roi ein hymwelwyr ar bedestalau' - i sicrhau nad ydym byth yn anghofio mai bodau dynol ydym!

Diolch eto i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru am ddarparu'r cyfieithiadau.

Ruth Waycott

Golygydd



Don't forget the humans!

Welcome to another edition of Dehongli Cymru.

Our last issue focused on technology, but with all the attention given to gadgets and gizmos today it's all too easy to forget about people! This issue of Interpret Wales hopes to put the balance back, having a distinctly human theme to it: our contributors are hands on and feet in and creating conversations with visitors.

It's interesting that so much of the interpretive technology we create imitates people. Take the computer-generated avatar Dewi, who has proved so popular at Ynyslas. We relate to human touch and human behaviour. But are we right to opt for the high-tech approach so often? Wouldn't we be better using local people to act as guides and interpreters for our heritage sites and historic landscapes? Topics become so much more 'real when they are heard in the context of a real place from real people', says Elaine Jones in her article on the talking history project, Changing Times at Carew.

Having read Teri Brewer's article on South Korea some of our Welsh attempts at interpretation may seem a little superficial and even 'cold', as the South Korean

approach is so much more holistic. The Koreans have considerable technological expertise, but choose low-tech approaches, particularly where they promote sustainable technologies. With the climate debate rising on everyone's agenda perhaps we should be looking more closely at what our interpretation counterparts across the world are doing?

It's good to see St Fagans: The National Folk Museum undertaking ground-breaking work in redeveloping its displays, with users actually contributing to the exhibitions and evaluating interpretation from their own perspective, rather than from that of curatorial staff. Exploring opportunities for individuals and communities to express their views through community-curated displays and digital stories has led to a wonderful 'learning journey' for all involved – a reminder that we should all 'place our visitors on pedestals' – just to make sure we don't forget the humans!

Thanks again to Forestry Commission Wales for translation services.

Ruth Waycott
Editor

INTERPRET WALES/DEHONGLI CYMRU

Issue 6 Autumn 2006

Published by the Countryside Council for Wales on behalf of the Dehongli Cymru/Interpret Wales Steering Group.

Editor: Ruth Waycott

Design: Olwen Fowler

Printed by: Gomer Press Ltd

Translation services: Forestry Commission Wales

Interpret Wales/Dehongli Cymru aims to enthuse the public about our natural and cultural heritage through interpretation of the highest quality, and to support interpreters by networking, training and sharing good practice.

The project is run by a Steering Group representing the agencies whose logos appear below.

Contents

Hands on, feet in.	
A view from the East	6
Teri Brewer	
Changing times in Carew	10
Elaine Jones	
Creating conversations with visitors	13
Nia Williams	
Empowering visitors at Ynyslas	16
Glenn Davidson	
Celebrating success and innovation in interpretation in Wales	19
Ruth Taylor Davies & Ruth Waycott	
News & views	20

Need to contact us?

Interpret Wales / Dehongli Cymru Secretariat
Ruth Taylor Davies
lethaconsultancy@fsmail.net
tel: 01792 881762

Interpret Wales / Dehongli Cymru Newsletter
Ruth Waycott
ruth@waycott.fsnet.co.uk
tel: 01600 860779

Photos Front Cover: Castell Coch, Cadw. Birds of prey at Aberystwyth Castle, courtesy of Ceredigion Museum.



Mae **Teri Brewer** yn ychwanegu persbectif rhyngwladol at y rhifyn hwn drwy rannu ei phrofiad o ddehongli yn Ne Corea, lle mae'r dehonglwr yn anelu at greu profiad byw sy'n cofleidio'r holl synhwyrac ac yn annog ymwelwyr i gymryd rhan.

'Profiad dwylo a thraed'. Dehongli yn y Dwyrain

Wrth i ni droedio'n ofalus ar wahanol arwynebau carreg y trac acw-wasgedd yn Guri, eglurodd ein gwesteiywr yr athroniaeth feddygol y tu ôl i'r rhan hon o'r parc cymunedol a chanolfan ddehongli yr oeddem yn ymweld â hwy. Yn Ne Corea, caiff gwerthoedd teuluol, dehongli diwylliannol ac amgylcheddol, rhaglenni iechyd a materion cadwraeth i gyd eu trin fel pynciau cysylltiedig, ac mae'r syniadaeth am y pethau hyn yn drwm dan ddylanwad gwerthoedd Confwisaidd a'r hunaniaeth Goreaidd unigryw a drysorir gan y bobl. Drwy yfed diod bro-fiotig a the ginseng, sicrhawyd ymhellach y byddem yn dysgu drwy brofiad cyfannol. Roeddwn i yn Ne Corea fel rhan o ddirprwyaeth ryngwladol a drefnwyd gan y Gymdeithas dros Ddehongli.

Dros gyfnod o bythefnos cawsom gyfle i ddarganfod a thrafod cyflwr dehongli yng Nghorea gydag arbenigwyr o'r prifysgolion, amgueddfeydd, safleoedd treftadaeth a phrosiectau amgylcheddol ac i annerch sawl cyngor dinas a chwarae rhan ganolog yn y Gynhadledd Profiad Ymarferol Ryngwladol Gyntaf yn Kintex, canolfan gynadledda wych Seoul. Dr. Kye jung Cho, Athro Coedwigaeth ym Mhrifysgol Suncheon ac un o sylfaenwyr y Gymdeithas Goreaidd dros Ddehongli a oedd wedi trefnu'r ymweliad a sicrhodd ein bod ni'n cael y cyflwyniad gorau posibl i'r amrywiaeth o raglenni a syniadau am ddehongli sy'n cael eu harfer yn Ne Corea. Drwy'r trafodaethau a sgysiau bywiog, y croeso

cynnes a diffuant a'r safleoedd rhyfeddol y buom yn ymweld â hwy, gwelsom fod dehongli yn Ne Corea o safon uchel iawn.

Yn wir, 'profiad dwylo a thraed' yw'r neges sydd gennym wrth ddychwelyd o Gorea. Mae gan Dde Corea gymdeithas soffistigedig a llewyrchus a chryn arbenigedd mewn uwch-dechnoleg yn ogystal â thoreth o adnoddau diwylliannol a naturiol. Roedd y safleoedd deongliadol y buom yn ymweld â hwy fel pin mewn papur, wedi'u cyflwyno'n ddeheuig ac yn uchel iawn eu parch ymhlith pobl De Corea a thwrystiaid tramor fel ei gilydd, ond mae'n ddiddorol nodi mai 'profiad dwylo a thraed' yw'r athroniaeth ddehongli sydd wedi datblygu yno a bod y pwyslais ar ddehongli personol wedi'i gynllunio a'i gefnogi'n dda ynghyd ag arwyddion celfydd eu dyluniad. Mae pobl De Corea yn gwerthfawrogi profiad bywiog sy'n cofleidio'r holl synhwyrac, sy'n gofyn i bobl gymryd rhan, ac sy'n annog grwpiau yn ogystal ag unigolion i werthfawrogi safleoedd ac adnoddau.

Mae llawer o'r safleoedd yr aethom iddynt yn cynnwys dehongli ychwanegol arbennig ar gyfer ymwelwyr o dramor gan eu bod wedi'u gwreiddio mewn hanes a thraddodiadau sy'n anhysbys i ni. Mae aliniad a chynllun yr adeiladau'n dilyn confensiynau sy'n anghyfarwydd i bobl o rannau eraill o'r byd. Mae agweddau'r Coreaid at natur ac at hanes y safleoedd, megis y Goedardd Genedlaethol, yn cynnig cyflwyniad da i feddwl a thechnolegau traddodiadol Corea.

Dengys y safleoedd ymagwedd ddychmygus at addysg ac fe'u defnyddir mewn ffordd wahanol gan y cyhoedd hefyd. Dywedwyd wrthym ei bod hi'n arbennig o fuddiol i frasgamu drwy'r cellioedd pinwydd yn yr Arboretwm rhwng 9 o'r gloch y bore a chanol dydd gan fod olewau rhinweddol y coed, a ystyrir yn hynod o iachus, yn cael eu rhyddhau ar yr adeg hon. Cawsom ein cyflwyno i batrymau anadlu priodol fel y gallem elwa ar y rhinweddau hyn. Buom hefyd yn ymweld â chysegrfeydd a beddau ffigurau hanesyddol pwysig ac yn dysgu am brosiect cadwraeth ac adfer nant ar y safle. Roedd gan nifer o'r safleoedd a welsom brosiectau a oedd yn cael eu cefnogi drwy Agenda 21, rhaglen amgylcheddol ryngwladol i bobl ifanc sydd wedi cael ei chroesawu gan y llywodraeth. Buont yn canolbwyntio ar ddatblygu safleoedd deongliadol sy'n defnyddio technolegau cynaliadwy ac sy'n gwneud esbonio'r rhain i ymwelwyr a'u hannog i'w hystyried yn rhan o'r profiad.

Daethom o hyd i ychydig o enghreifftiau o dechnolegau newydd, megis y systemau diweddaraf sy'n cael eu gosod yn yr Amgueddfa Genedlaethol i alluogi ymwelwyr i gyrchu data pell o wahanol leoliadau yn yr amgueddfa, a datblygwyd systemau sain mewn sawl iaith i dywys ymwelwyr. Ond buom yn ddigon ffodus i gael taith dywys bersonol wedi'i harwain gan dywysydd gwybodus o'r enw Truman Kim, ac felly ni chawsom gyfle i roi prawf




Ymwelwyr yn mwynhau arogleuon a gweadau'r perlyisiau a phlanhigion meddygol sy'n cael eu harddangos yn Amgueddfa Werin Genedlaethol Corea yn Seoul.
Visitors enjoy the scents and textures of medicinal herbs and plants on display at the Korean National Folk Museum in Seoul.

Mae grwpiau'n ymweld yn aml â safleoedd treftadaeth ac amgylcheddol De Korea, er enghraifft Gyeongju. Dyma Safle Treftadaeth Byd sy'n cynnwys nifer o feddrodau a themlau hardd yn dyddio o Deyrnasiad Shilla, 9fed–10fed ganrif.
Group visits are most common at South Korean heritage and environmental sites such as Gyeongju, a World Heritage Site with many important tombs and handsome temples dating from the Shilla Dynasty of the 9th–10th centuries.

ar y cyfarpar newydd, dim ond i glywed esboniad ohono a sut y cawsai ei osod.

Derbyniais e-bost hyfryd yn ddiweddar gan un o'r myfyrwyr o Gorea a fu'n cadw cwmni i ni yn ystod ein hymweliad. Dywedodd wrthyf ei fod wedi gweld un o gemau pêl-droed Cymru ar y teledu a phan welodd y Ddraig Goch yr oedd ei galon wedi llenwi â balchder wrth gofio'r cyflwyniadau yr oeddwn wedi'u gwneud am ddehongli yng Nghymru. Sylweddolai mor gyfarwydd ydoedd â Chymru, ac mor gryf oedd ei deimlad a'i chwilfrydedd am ein gwlad o ganlyniad i'n hymweliad. Gwyddwn sut yr oedd yn teimlo, ac yn sicr ni fyddaf byth yn anghofio fy amser yn Ne Corea.

Darlithydd, hyfforddwraig ac ymgyngorydd ar ddehongli diwyllianol sydd yn gweithio yng Nghaerdydd yw Teri Brewer. Fedrwrch gysylltu gyda hi ar tfb@brewerwells.org



Teri Brewer adds an international perspective to this issue, sharing her experience of interpretation in South Korea, where an active experience that engages all the senses and encourages participation, is the interpreter's aim.

'Hands on, feet in'. A view from the East

As we gingerly trod on the different stone surfaces of the acu-pressure track in Guri, our hosts explained the medical philosophy behind this feature of the community park and interpretive centre we were visiting. Here in South Korea, family values, cultural and environmental interpretation, health programmes and conservation issues are all treated as related topics, and thinking about these topics is strongly influenced by the Confucian values and distinctively Korean identity which people hold dear. A pro-biotic drink and supplies of ginseng tea followed, ensuring that we would learn through an unusually holistic experience. I was in South Korea as part of an international delegation organized through the *Association for Interpretation*.

In two weeks we had a chance to explore and discuss the state of interpretation in Korea with experts from the universities, museums, heritage sites and environmental projects as well as addressing several city councils and taking a central role in the *First International Hands On Expo* at Kintex, Seoul's splendid convention centre. Dr. Kye jung Cho, Professor of Forestry at Suncheon University and one of the founders of the *Korean Association for Interpretation*, was the organizer of our visit and ensured that we had the best possible introduction to the range of programs and ideas about interpretation being practiced in South Korea. The lively debates and conversations,

the warmth and sincerity of our welcome and the wonderful sites that we were able to visit demonstrated very clearly to us that in South Korea interpretation is already of a very high standard, with an admirable commitment to developing interpretive practice within a distinctively Korean framework. This is not only a credit to the KAI, but to the organizations and communities rising to the challenge of sharing special places and stories with a changing mixture of Korean and overseas visitors.

And "hands on, feet in" is very much the message we returned from Korea with. South Korea is a sophisticated and prosperous society and has considerable expertise in high technology as well as an abundance of interesting cultural and natural resources. The interpretive community has taken a thoughtful approach to the problem of where technology is appropriate, and where personal interpretation or other techniques may be more effective.

The interpretive sites we visited were immaculately cared for, lovingly presented and obviously much valued by both South Koreans and tourists from abroad, but it is interesting that the philosophy of interpretation which has developed there is one of active multi-sensory participation with an emphasis on well planned and supported personal interpretation in conjunction with well designed signage. South Koreans value an active experience that engages all the

senses and encourages participation by groups as well as individual appreciation of sites and resources. The solutions used so successfully there are mostly low-tech.

Many of the sites that we went to required special extra interpretation for non Asian visitors, unfamiliar with Korean spiritual and cultural traditions and history. The alignment and design of buildings follows conventions familiar to many Asians, but which require some explanation for greatest appreciation by visitors from other parts of the world. Attitudes towards nature and history at sites such as the *National Arboretum* offer a good introduction to Korean thought and traditional technologies as well as an imaginative approach to education. The way that the Korean visitors use these sites is also different from practices familiar in Europe and North America. For instance at one site we were told that it is considered particularly beneficial to stroll briskly through the pine groves of the site between 9 am and noon because the volatile oils from the pines are released at this time of day and are considered especially health giving. We were introduced to appropriate patterns of breathing to maximize these benefits during our own visit. A number of the sites that we visited also supported projects developed by *Agenda 21*, an international youth environmental initiative which South

Cynrychiolwyr y
Gymdeithas
Genedlaethol dros
Ddehongli yn arbrofi
gyda thrac acw-wasgedd
yn Guri, De Corea.

**National Association
for Interpretation
delegates experiment
with an acu-pressure
track at Guri in South
Korea.**

Korea has welcomed. Their focus has been on the development of interpretive sites that use sustainable technologies. Explaining the larger goals of the program to the visitor and encouraging their full exploration on the site is an important part of the experience.

We did encounter a few examples of new technologies being used, such as the state of the art systems being installed in the South Korean National Museum, where visitors can now access remotely held data from locations around the museum, and where high quality audio guides have been developed in several languages.

I was touched to receive an email from one of the Korean students who accompanied us on our visit. He told me that he had recently watched a football match on television where Wales were playing. He said that at the sight of the Welsh flag he had suddenly felt himself filled with pride and recognition - as he recalled having watched the presentations I made about interpretation in Wales while we were there and realized that he now had greater familiarity with, feeling for and curiosity about Wales as a result of our visit. I knew just how he felt and I will certainly never forget my time in Korea.

Teri Brewer is a lecturer, trainer and consultant on cultural interpretation based in Cardiff. E. tfb@brewerwells.org



Newid Byd yng Nghaeriw

Mewn un genhedlaeth yn unig, mae ffordd o fyw a orosodd yn Sir Benfro am ganrifoedd wedi darfod i bob pwrpas. Mae **Elaine Jones** yn dweud wrthym am brosiect 'hanes yn siarad' sydd â'r nod o gofnodi ffordd o fyw sydd bron wedi diflannu.

Ers canrifoedd mae cymunedau wedi diogelu hanes a gwerthoedd eu pobl drwy'r traddodiad llafar. Byddai hynafgwyr pob ardal yn trosglwyddo'u doethineb a'u gwybodaeth am wreiddiau'u pobl a thrwy hynny yn eu cysylltu â'u gorffennol. Yn ystod y ganrif ddiwethaf, newidiodd ein ffordd o fyw yn gyflymach nag erioed o'r blaen, ac ymddengys nad oes gennym bellach lawer o amser i wrando ar straeon o flaen y tân. Heb y traddodiad llafar hwn rydym mewn perygl o golli hanesion y rheiny sydd wedi cael profiad personol o'r newidiadau syfrdanol hyn.

Prosiect 'hanes yn siarad' yw 'Newid Byd yng Nghaeriw' sy'n cofnodi bywyd pob dydd plwyf yn Sir Benfro yn ystod yr 20fed ganrif. Cychwynnwyd y prosiect gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a oedd yn ystyried sut y gallai

ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog yr ardal a'i gwneud yn fwy hygyrch i bobl leol ac ymwelwyr. Dewiswyd y gymuned yng Nghaeriw oherwydd ei thraddodiad llafar cryf a chan fod y grŵp hanes wedi dechrau'r gwaith o recordio pobl leol. Yn ogystal, roedd gan yr Awdurdod gysylltiadau cryf yn barod yn yr ardal gan ei fod yn rheoli Castell Caeriw a'r Felin Heli, ac roedd yn awyddus i ategu ei waith diogelu a dehongli ar yr adeiladau hanesyddol hyn â gwaith â nodau cyffelyb ar y dreftadaeth ddiwylliannol ddiweddar.

Wedi ymgynghori â'r gymuned, darganfuwyd bod cryn frwdfrydedd dros y fenter, a sefydlwyd grŵp llywio bach i wneud cynnig i Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Yn dilyn llwyddiant y cais, cafodd cydgysylltydd rhan-amser ei gyflogi a phrynwyd cyfarpar recordio a golygu sain,



Dysgu sgiliau traddodiadol Learning traditional skills

camera digidol a gliwiadur. Bydd y rhain yn parhau'n eiddo i'r gymuned i'w defnyddio yn y dyfodol. Talodd y grant hefyd am hyfforddiant a chymorth arbenigol gyda golygu sain a gwaith technegol arall.

Hyd yn hyn recordiwyd dros 50 o gyfweiliadau gan 10 o wahanol holwyr. Mae pobl leol wedi cael hyfforddiant mewn technegau holi a buont yn holi eu cyfeillion ac aelodau o'r teulu. Bu hyn yn ffordd lwyddiannus o gael cydweithrediad pobl, gan sicrhau eu bod yn teimlo'n gartrefol a throi'r cyfweiliad yn ddigwyddiad cymdeithasol. Hefyd mae'n golygu bod gan bobl leol y medrau angenrheidiol i barhau â'r prosiect ar ôl i'r cyllid ddod i ben.

Mae digwyddiadau cymdeithasol yn un o nodweddion amlycaf y prosiect. Yn ystod y digwyddiad mwyaf diweddar, dathliad o fedrau a chrefftau traddodiadol, denwyd dros 100 o bobl rhwng 9 a 90 oed. Defnyddir achlysuron o'r fath i roi gwybod i bobl sut mae'r prosiect yn dod yn ei flaen ac i ysgogi atgofion a gofyn am wirfoddolwyr newydd. Rhoddant gyfle i bobl ddod â gwrthrychau a ffotograffau sy'n dwyn atgofion o orffennol coll. Gellir tynnu llun neu sganio'r eitemau gwerthfawr hyn a'u dychwelyd i'w perchenogion cyn diwedd y noson.

Un o lwyddiannau arbennig y prosiect yw'r ffordd y mae wedi dwyn pobl ynghyd, yn hen ac ifanc, yn frodorion ac yn newydd-ddyfodiaid. Mae'r cyfweiliadau a'r digwyddiadau cymdeithasol wedi ysgogi



Sophie Williams yn holi Mrs Iris Butland
Sophie Williams interviewing
Mrs Iris Butland

trafodaeth ar y newid a fu mewn ffyrdd o fyw a gwerthoedd. Mae'r ysgol leol wedi cymryd rhan weithgar yn y prosiect. Rhoddwyd hyfforddiant i'r disgyblion mewn technegau holi a buont yn holi pobl mewn oed am yr Ail Ryfel Byd. Gobeithir y bydd modd defnyddio'r deunydd o'r prosiect drwy'r sir i ychwanegu dimensiwn lleol at y cwricwlwm.

Mae'r recordiau wedi dod â gorffennol Caerw yn fyw unwaith eto ac wedi agor ffenestr ar ddiwylliant sy'n prysur ddiplannu. Gyda'i gilydd maent hwy'n adrodd hanes ffordd o fyw a fu'n gadarn yn Sir Benfro am ganrifoedd lawer ond sydd, o fewn un

genhedlaeth fwy neu lai, wedi dod i ben. I lawer, roedd yn fywyd heb brif gyflenwad dŵr neu drydan, lle'r oedd cludiant yn brin a lle'r oedd y rhan fwyaf o nwyddau pob dydd ar gael yn lleol neu'n cael eu cynhyrchu'n lleol. Roedd yn gyfnod pan oedd hunangynhaliath yn golygu gofalu am ardd fawr a chadw mochyn; pan oedd cludiant cynaliadwy yn golygu cerdded, beicio neu fynd ar y bws; a phan

oedd ailgylchu ac aildefnyddio popeth yn rhan naturiol o fywyd pawb. Rhaid bod llawer o bobl yn eu hwythdegau yn gwenu wrth glywed damcaniaethau 'newydd' yr oes fodern am 'fyw cynaliadwy'.

Bydd yr archif yn cael ei lledaenu'n lleol drwy gyfres o CDau ar themâu arbennig. Mae nifer o bynciau wedi cael eu dewis gan y gymuned, yn amrywio o Fywyd Menywod i Gludiant a Chwaraeon, a'r nod yw cynhyrchu CD ar bob un. Proses lafurus fydd hon a fydd yn gofyn am oriau o waith golygu gofalus i dynnu darnau perthnasol allan o'r deunydd a recordiwyd a'u rhoi ynghyd mewn ffordd sy'n mynnu sylw ac yn adrodd hanes.

Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i

sefydlu gwefan a defnyddio cyfryngau eraill megis drama. Ysbrydolwyd y Gymdeithas Gymunedol i'r fath raddau fel ei bod yn ceisio cyllid i gynhyrchu llyfr yn seiliedig ar y deunydd a gasglwyd. Mae geiriau a ffurfiau tafodieithol lleol yn cael eu cofnodi a rhoddir y ffeiliau sain yn archif y Cyngor Sir, sy'n cefnogi'r prosiect.

Gobaith y Parc Cenedlaethol yw defnyddio rhai o recordiau'r prosiect mewn arddangosfa barhaol yn y Felin Heli sy'n un o'r atyniadau mwyaf poblogaidd gan ymwelwyr. Nid oes amheuaeth bod atgofion llafar, wedi'u cyfuno â delweddau ffotograffig, yn ffordd nerthol iawn o ddangos sut y bu bywyd yn y gorffennol. Yn wahanol i ddulliau dehongli eraill, gall hanes llafar ddod â realaeth a bywiogrwydd i'r pwnc dan sylw. Boed yn rôl newidiol menywod neu'r bygythiad i fioamrywiaeth, mae popeth yn gwneud mwy o synnwyr i ni os ydym yn ei glywed yng nghyd-destun lle go iawn gan bobl go iawn. Serch hynny, bydd yn bwysig pwylllo a chymhwysio egwyddorion methodoleg ddehongli at y rhan hon o'r prosiect. Er y bydd pobl leol yn mwynhau'r manylder ac yn eistedd am oriau'n gwrandao ar gymdogion yn adrodd eu hanes, ni fydd yr hanesion hyn yn cipio dychymyg ymwelwyr yn yr un ffordd. Yr her fydd defnyddio'r deunydd yn greadigol i ychwanegu dyfnder profiad at yr arddangosfa. Ond her i'r dyfodol yw hon. Hyd yma mae'r prosiect wedi dangos bod hanes llafar yn ffordd ddefnyddiol o gynnal a diogelu treftadaeth ddiwylliannol cymuned wledig. Gobeithir mai dyma'r dechreuad yn unig yn Sir Benfro ac y bydd cymunedau eraill yn dilyn esiampl Caerw a'r gwersi y maent hwy wedi'u dysgu i ddechrau recordio eu hatgofion eu hunain.

Mae Elaine Jones yn gweithio i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a gellid cysylltu â hi ar elainej@pembrokeshirecoast.org.uk

Cofio am gampau'r gorffennol
Recalling past sporting triumphs



Changing Times in Carew

In just one generation, a way of life which endured in Pembrokeshire for centuries has largely come to an end.

Elaine Jones tells us about a “talking” history project which aims to preserve stories of this vanishing time.



Anna Hannaford a ffrind
Anna Hannaford and friend

For centuries communities have carried the history and values of their people forward through the oral tradition. Elders passed on wisdom and knowledge which helped each generation to understand where they came from, and connected people to their heritage. The way of life within the recent past has probably changed more than ever before, yet modern lifestyles leave little room for fireside storytelling. Without this oral tradition we are in danger of losing the stories of those who have experienced these changes first hand.

‘Changing Times in Carew’ is a “talking” history project which is recording the story of everyday life in a South Pembrokeshire parish in the 20th century. The project was initiated by the Pembrokeshire Coast National Park Authority, which was looking at ways to conserve the rich cultural heritage of the area and make it more accessible to locals and visitors. The Carew community was approached, not only because of its rich oral tradition, but also because the history group had started the process of recording local people. In addition, the Authority already had strong links in the area through its management of Carew Castle and Tidal Mill, and were keen to balance the conservation and interpretation of these historic monuments with that of the more intangible heritage of the recent cultural past.

Community consultation soon established an appetite for the initiative and a small steering group was put together to make a bid to the Heritage Lottery Fund. This enabled a part-time coordinator to be employed, and funded the purchase of recording and sound editing equipment; a digital camera and a laptop. These will remain in the ownership of the community for future use. Training and specialist help with sound editing and other technical issues are also funded.

To date over 50 interviews have been recorded by 10 different interviewers. Local people have been trained in interviewing

techniques and have interviewed their friends and families. This has been a successful approach, immediately putting people at ease and turning the interview into a social event. It has also given local people the skills to continue with the project after the funding comes to an end.

Social gatherings are a strong feature of the project. The most recent event, a celebration of traditional skills and crafts, attracted over 100 people ranging from 9 to 90. These events are used to update local people on the progress of the project and to stimulate reminiscence and bring forward new volunteers. They provide the opportunity for people to bring along artefacts and photographs which can act as potent reminders of past events. These precious items can then be scanned and returned to their owners on the same evening.

A particular success of the project has been the way it has brought people together; young and old, natives and newcomers. The interviews and social events have provoked debate about changing ways of life and values. The local school has taken an active part in the project. Pupils have been trained in interview techniques and have interviewed older members of the community about the wartime period. It is hoped that material from the project can be used throughout the county to add a local dimension to the curriculum.

The recordings have brought to life Carew's recent past and opened a window onto a culture that is rapidly disappearing. Collectively they tell of a way of life which endured in Pembrokeshire for centuries but has, in just one generation, largely come to an end. For many it was a life without mains supplies of water or power, where transport was limited and when much of what was needed for everyday living was available locally or gleaned from the land itself. Recalling a time when self-sufficiency meant a large garden and a pig; when sustainable transport meant walking,

cycling or taking the "jungle bus", and recycling was simply make do and mend, many octogenarians must smile when they witness today's 'new' theories on 'sustainable living'.

The archive is to be disseminated locally through a series of themed CDs. A number of topics have been identified by the community, ranging from Women's Lives, to Transport and Sport and the aim is to produce a CD on each. This will be a painstaking process, requiring careful editing of hours of recorded material to extract snippets that can be put together in a way that captures attention and tells a story.

There are also plans to set up a website and use other media such as drama. The Community Association has been so inspired that it is now seeking funding to produce a book based on the oral material collected. Local words and dialect are being preserved and sound files will be deposited in the archive of the County Council, whose officers are supporting the project.

The National Park Authority hopes to use some of the project recordings in a permanent exhibition at the Tidal Mill, a major visitor attraction in the area. There is no doubt that recorded memories, combined with photographic images, are a very powerful means of bringing a place to life. Oral history can bring realism and immediacy to topics in a way other interpretation can not. Whether it be the changing role of women or threats to biodiversity – all are made more real when heard in the context of a real place from real people. However, it will be important to exercise caution and to apply the discipline of interpretative methodology when it comes to this part of the project. While locals enjoy the detail and will sit for hours listening to neighbours recount their stories, these stories will not captivate visitors in the same way. The challenge will be to use the material creatively to add depth of experience to the exhibition. But this is a challenge for the future. So far the project



Atgofion amaethyddol a anes yr esgidiau pigog– wedi'u gwisgo gan dair cenhedaeth! Farming memories and the story of the spikes – worn by three generations!



has shown that oral history is a useful means of sustaining and conserving the cultural heritage of a rural community. It is hoped that this is only the beginning in Pembrokeshire and that other communities will use the example of Carew and the lessons they have learnt to start recording their own memories.

*Elaine Jones is Interpretation Officer for the Pembrokeshire Coast National Park Authority
T. 01646 624855
E. elainej@pembrokeshirecoast.org.uk*



Creu sgysiau ag ymwelwyr

Sut mae penderfynu beth i'w gynnwys mewn oriel newydd mewn amgueddfa?

Mae **Nia Williams**, Cydgysylltydd Addysg yn Sain Ffagan, yn rhannu ei phrofiad o weithio ar ddatblygu Oriol I, a'r arddangosfa 'Perthyn' newydd yr Amgueddfa a fydd yn agor yn 2007.

Ysgol Neyland
Neyland school



'Yn lle rhoi gwrthrychau'n unig ar bedestalau, mae'n hen bryd i ni roi ein hymwelwyr ar bedestalau hefyd.'

Cyfieithwyd o K. McLean, *Planning for People in Museum Exhibitions* (1993)

Eleni bu'r staff yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan yn gweithio i greu lle arddangos newydd o'r enw Oriol I. Bydd yn cymryd lle'r hen oriel Diwylliant Materol a ddyluniwyd 35 mlynedd yn ôl. Ein gobaith yw darparu lle cymdeithasol i ymwelwyr fwynhau'r casgliadau, gan eu cynnwys yn y broses o gasglu ac o fyfrio ar beth y mae Cymru yn ei golygu i bobl heddiw. Bydd yr arddangosfa gyntaf, 'Perthyn', yn agor ym mis Ebrill 2007.

Roedd angen i ni fod yn siwr y byddem yn darparu'r hyn yr oedd pobl ei eisiau. Er mwyn gwneud hyn, ymgymeryd ag arolwg o'r hen arddangosfa yn 2005 i ddarganfod sut yr oedd yn cael ei defnyddio a pham yr oedd rhai pobl yn dewis peidio ag ymweld â hi. Cafodd yr holiadur ei ragbrofi gan aelodau o'r tîm prosiect cyn cael ei drosglwyddo i werthuswr allanol i ymgymryd â'r arolwg terfynol. Bydd y wybodaeth a gasglwyd yn cael ei chymharu â'r wybodaeth o arolwg cyffelyb a wneir ar ôl agor yr oriel newydd yn 2007.

Mae gwerthuso a phrofi prototeip ar wahanol adegau wedi dylanwadu ar ein cynlluniau a'n syniadau. Bu trefnu

trafodaethau a gweithdai â gwahanol fathau o ddarpar ddefnyddwyr – disgyblion ysgol, athrawon, grwpiau cymunedol a ffoaduriaid – yn hanfodol. Mae'r hyn a ddarganfuwyd wedi llywio'r broses wrth i ni ddatblygu'r arddangosiadau.

Trwy'r gwaith ymchwil, mae tîm y prosiect wedi gweld sut mae pobl yn creu eu hystyron a'u gwybodaeth eu hunain mewn orielau. Buom yn ffodus i glywed atgofion, a rhannu barn a syniadau personol am wrthrychau. Roedd y broses yn un addysgol i'r tim, â nifer yn gweithio mewn meysydd cymharol newydd. Crewyd cyfle naturiol felly i fyfrio ar gymhlethdod y prosesau sy'n rhan o'r ffordd mae pobl yn dysgu. Mae'r fframwaith 'Ysbrydoli Dysgu i Bawb' a'r data a gasglwyd o astudiaethau amgueddfaol cyfredol wedi arwain at ddatblygu geirfa newydd ar gyfer dysgu, ac wedi caniatáu staff arbrofi wrth greu llwybrau dysgu gweithredol gyda'r ymwelwyr.

